Pennaeth Gwasanaeth Sir Ddinbych ar ei ffordd yn ôl i flaen y gad

Os ydych chi'n bwriadu defnyddio cyfleusterau hamdden Sir Ddinbych, neuaddau tref, parciau neu ganolfannau ieuenctid ym mis Awst, cadwch lygad yn agored am Jamie Groves, Pennaeth Gwasanaethau Hamdden Sir Ddinbych.

Am ran helaeth o fis Awst bydd Jamie'n treulio'r rhan fwyaf o'i amser yn ôl ar flaen y gad - yn cynnwys gyda'r nosau, penwythnosau a boreau cynnar - ac mae'n awyddus i glywed beth yn union mae pobl yn ei feddwl o'r gwasanaethau sydd ar gael.

Dywedodd Jamie: "Wrth ystyried yr hinsawdd economaidd ariannol sy'n wynebu cynghorau ar hyn o bryd, mae angen i ni sicrhau ein bod yn parhau i gynnig y gwasanaeth gorau a'r mwyaf cost effeithiol posibl.

"Rydw i'n awyddus i glywed barn uniongyrchol gan bobl sy'n defnyddio'r cyfleusterau ac rydw i'n awyddus i weld drosof fy hun sut y gallwn ni sicrhau fod pawb yn cael gwerth am arian wrth wneud yn siŵr ein bod yn parhau i roi'r gwerth gorau am arian i'n cwsmeriaid."

Mae'r amserlen yn awr wedi ei llunio a bydd Jamie'n mynd 'yn ôl i'r llawr' i gymaint ag sydd bosib o safleoedd hamdden y Cyngor: canolfannau hamdden, canolfannau ieuenctid, cynlluniau atgyfeirio i wneud ymarfer corff a pharciau. Fe fydd yn gwneud pob dim o lanhau ystafelloedd newid i weithio mewn derbynfa, dysgu nofio, bod yn gynorthwyydd pwll ar shifft gynnar y bore i redeg gweithgareddau penwythnos. Fe fydd hefyd yn annog pob un o'i reolwyr i gymryd rhan yn eu hymarferion 'yn ôl i'r llawr' eu hunain.

Mae Gwasanaethau Hamdden Sir Ddinbych eisoes yn cael ei ystyried yn fodel o arferion gorau yng Nghymru, wedi mynd o fod yn wasanaeth a oedd yn cloffi ddeunaw mis yn ôl i gael ei ystyried yn awr yn wasanaeth sydd wedi gwella wrth leihau gwariant yn sylweddol yr un pryd.

Oherwydd y gwelliant hwn, bydd Jamie'n rhoi sgwrs ar y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ei drawsnewid i gynrychiolwyr o bob cwr o Gymru yng nghynhadledd APSE (y Gymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cyhoeddus) yn Llandrindod yr wythnos yma.

Corff llywodraeth leol dielw yw APSE ac mae'n gweithio gyda thros 300 o gynghorau ledled y DU, yn hyrwyddo rhagoriaeth mewn gwasanaethau cyhoeddus.